Addysg Rhyw a Pherthnasoedd
Ysgol Gymunedol Peniel

Cynnwys

Cynnwys 1
Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn Ysgol Peniel..... **Error! Bookmark not defined.**
Beth yw Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn yr ysgol? 2
Nod 2
Amcanion: 2
Sut byddwn ni'n gwneud hyn yn yr ysgol? 3
Cynllunio'r gwaith: 3
Ateb cwestiynau'r disgyblion..... 3
Ein polisi yw bod plant yn cael eu hannog i ofyn cwestiynau am bob agwedd ar eu haddysg. Pan fo athrawon yn ymdrin â chwestiynau am ryw a pherthnasoedd byddant yn arfer barn broffesiynol ac yn cynnig atebion sy'n briodol i oed ac aeddfedrwydd y plentyn neu'r plant eraill a allai fod yn gwrando. 3
HIV/AIDS..... 3
Cyfrinachedd..... 3
Hyfforddiant: 4
Ymwelwyr ac asiantaethau allanol: 4
Adnoddau..... 5
Rhieni: 5
Monitro a gwerthuso: 5

Beth yw Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn yr ysgol?

Mae'n rhan o addysg bersonol a chymdeithasol. Dyma'r ffordd y byddwn yn helpu plant i ddatblygu agweddau cyfrifol ac iach at berthnasoedd personol a deall mwy amdanynt eu hunain, eu teimladau eu hunain a theimladau pobl eraill, datblygiad corfforol ac emosiynol, bywyd teuluol a materion moesegol a chymdeithasol cysylltiedig.

Nod

Cynnig rhaglen amgylcheddol a datblygiadol a fydd yn paratoi pob plentyn sydd yn ein gofal i reoli ei b/pherthynas bersonol mewn modd iach a chyfrifol; deall datblygiad corfforol ac atgenhedlu; meithrin y sgiliau, yr agweddau, y wybodaeth a'r hunan-barch a fydd yn fodd iddynt fyw bywyd hapus a chyflawn.
Ysgrifennwyd y polisi hwn i gydymffurfio â'r gyfraith ynghylch Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yng Nghymru ac mae'n cydymffurfio a chanllawiau a'r Addysg Rhys a Pherthnasoedd 2010.

Amcanion:

1. Cynnig gwybodaeth ynghylch tyfu a datblygu, llencyndod ac atgenhedlu i bob plentyn yn unol â'u hoed a'u haeddfedrwydd, ni waeth beth fo'u hil, anabledd neu ryw wrth ddilyn rhaglen Tyfu i Fyny.
2. Datblygu agweddau cyfrifol tuag at eu hiechyd a'u lles eu hunain ac eraill.
3. Helpu'r plant i ddod i ddeall eu teimladau a theimladau pobl eraill a sut gellir effeithio arnynt.
4. Ymdrin â phryderon a chamsyniadau'r plant ynghylch perthnasoedd yn sgîl yr hyn a glywant ar y cyfryngau neu gyda ffrindiau.
5. Cynnig arweiniad a diogelu'r plant rhag profiadau rhywiol nas dymunir gan gynnwys defnyddio'r rhyngrwyd, ymdrin â phwysau gan gyfoedion.
6. Helpu'r plant i ddysgu am gyfeillgarwch, teuluoedd a pherthnasoedd eraill a gwerthfawrogi a pharchu ffrindiau a theuluoedd fel ffynhonnell serch a chariad.
7. Dysgu am berthnasoedd a rhywioldeb yng nghyswllt gwerthoedd ein cymdeithas.
8. Dysgu am arferion glendid personol a derbyn cyfrifoldeb cynyddol dros eu lles corfforol wrth symud tuag at lencyndod..
9. Creu awyrgylch lle mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn barod i holi cwestiynau a dysgu am faterion sensitif yng nghwmni oedolion y gallant ymddiried ynddynt.
10. Helpu'r disgyblion i ddeall arwyddocâd priodas a phwysigrwydd hynny i fywyd teuluol ac wrth fagu plant; yr amrywiaeth o berthnasoedd sefydlog cefnogol sy'n bodoli y tu allan i briodas.
11. Cynnig cyfleoedd i drafod materion sensitif yn agored mewn amgylchedd cefnogol a chyfarwydd er mwyn helpu disgyblion i wneud dewisiadau iach.
12. Creu cysylltiadau rhwng ein disgyblion ag asiantaethau allanol priodol e.e. y nyrs ysgol, meddygon teulu a gwasanaethau iechyd rhyw.

Sut byddwn ni'n gwneud hyn yn yr ysgol?
Mewn Ysgol Gynradd:
Byddwn yn cyflawni'r amcanion uchod drwy wneud gwaith sy'n cyd-fynd â'n pynciau neu'n themâu ac fe'u cynigir i bob disgybl waeth beth fo'i hil, rhyw neu anabledd. Mae datblygu sgiliau cyfathrebu da yn rhan bwysig o addysg rhyw a pherthnasoedd a bydd y gwaith hwn yn rhan o sawl gweithgaredd yn ogystal â gwersi Cymraeg a Saesneg. Mae gwyddoniaeth yn ymdrin â llawer o wybodaeth a dealltwriaeth a bydd angen trefnu gwaith ychwanegol ynghylch teimladau ac emosiynau i gyd-fynd â'r gwaith hwn. Gwneir peth o'r gwaith yn ystod Amser Cylch. Mae datblygu hunan-barch a pharch at eraill yn rhan annatod o'r holl waith a wneir yma.

Cynradd ac Uwchradd
Nid cyfrifoldeb yr ysgol yn unig yw addysg rhyw a pherthnasoedd. Byddwn yn cydweithio'n agos a rhieni a gweithwyr iechyd a byddwn yn cysylltu'r gwaith a materion eraill fel addysg am gyffuriau ac alcohol, ysmygu a bwyta'n iach.

Cynllunio'r gwaith:
Yr athro/athrawes dosbarth fydd yn gyfrifol am ddysgu addysg rhyw a pherthnasoedd a bydd yn rhan o'r cynllunio o ddydd i ddydd. Byddwn yn cydymffurfio ag argymhellion Fframwaith ABCh Cymru a chyfarwyddyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru –Canllawiau 'Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn yr ysgolion 2010.
Cofnodir cynnwys y rhaglen ABCh drwy gyfrwng y drefn gynllunio arferol, gan ddechrau pan ddaw'r plant i'r ysgol am y tro cyntaf a datblygu wrth iddynt dyfu gan ddefnyddio deunydd a chynnwys sy'n addas i anghenion y disgyblion.

Ateb cwestiynau'r disgyblion
Ein polisi yw bod plant yn cael eu hannog i ofyn cwestiynau am bob agwedd ar eu haddysg. Pan fo athrawon yn ymdrin â chwestiynau am ryw a pherthnasoedd byddant yn arfer barn broffesiynol ac yn cynnig atebion sy'n briodol i oed ac aeddfedrwydd y plentyn neu'r plant eraill a allai fod yn gwrando.

HIV/AIDS
Ysgolion Cynradd – bydd y disgyblion yn dysgu o oedran cynnar iawn y gellir trosglwyddo germau drwy gyffwrdd â gwaed neu wrin. Dysgir **arferion hylendid** syml er mwyn atal heintiau rhag lledu. Bydd hyn yn cynnwys rhoi plasteri dros gytiau, peidio â chyffwrdd â chlwyfau neu grafiadau (gan adael i'r athro / athrawes ddelio â'r rhain tra'n gwisgo menig plastig) a glanhau hylif a gollir gan ddefnyddio diheintydd tra'n gwisgo menig plastig. Yn achos plant bach, yr athro / athrawes fydd yn delio'n uniongyrchol â'r materion hyn. Pan fydd yn briodol byddant yn dysgu mwy am germau a rhai o'r clefydau a achosir ganddynt.

Cyfrinachedd
HIV/AIDS – nid oes angen i unrhyw ddisgybl na rhiant ddatgelu bod gan ddisgybl HIV cyhyd ag y cedwir at y rheolau o ran hylendid. (*Os bydd disgybl o'r fath mewn ysgol byddai'r risg o ddal germau cyffredin megis annwyd oddi wrtho lawer yn fwy*

na'r risg y gallai heintio eraill â HIV. Pe byddai statws HIV disgybl yn hysbys byddai'r goblygiadau cymdeithasol yn niweidiol i'r disgybl unigol ac i'r ysgol). Dylai athrawon a disgyblion fel ei gilydd fod yn ymwybodol na ellir cadw'r holl wybodaeth a ddatgelir yn gyfrinach a hynny mewn sefyllfaoedd lle gallai cadw cyfrinachedd achosi perygl i'r disgybl neu i berson arall. Os bydd disgybl yn datgelu unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i gam-drin plant yn rhywiol neu mewn unrhyw ffordd arall, mae rhaid dilyn y weithdrefn amddiffyn plant sydd ar waith yn yr ysgol. Bydd hyn o reidrwydd, yn golygu rhoi gwybod i oedolion eraill. Bydd angen i athrawon egluro hyn i'r disgyblion mewn ffordd mor sensitif â phosibl.

Y rheol, yn syml, yw: peidiwch byth ag addo cyfrinachedd.
Mewn achosion lle nad yw diogelwch plentyn mewn perygl ond bernir bod angen trosglwyddo gwybodaeth er lles y disgybl, bydd yr athro / athrawes dan sylw yn trafod y mater â'r disgybl yn gyntaf gan nodi pwy y dylid hysbysu a'r hyn a allai ddigwydd o ganlyniad. Lle bo'n bosibl, anogir disgyblion i geisio cymorth eu rhieni yn y lle cyntaf.

Hyfforddiant:
Mae diffyg hyder ymhlith rhai athrawon o ran trafod addysg rhyw a pherthnasoedd am y tro cyntaf. Bydd pob athro ac athrawes, gan gynnwys y Cydgysylltydd ABCh, yn cael cyfle i fynychu hyfforddiant a gyllidir o'r rhaglen GCAH.

Ymwelwyr ac asiantaethau allanol:
Croesewir cymorth gan asiantaethau allanol all ein helpu i gyflawni ein hamcanion. Yn arbennig, croesewir cymorth gan y Nyrs Ysgol sy'n ein helpu i ddatblygu adnoddau a siarad â'r plant am lencyndod ac atgenhedlu. Dilynwn y canllawiau o ran arferion da a amlinellir yn y Polisi ABCh wrth gynnwys ymwelwyr yn y rhaglen.

Defnyddio ymwelwyr fel rhan o'r rhaglen
Mae arferion da yn argymell bod athrawon yn defnyddio arbenigedd mewn unrhyw faes o'r rhaglen ABCh os oes modd. Bydd y cynllun ABCh yn clustnodi ble gall ymwelydd gyfrannu a chynorthwyo'r rhaglen. Mae'r canllawiau canlynol ynghylch arferion da yn berthnasol pan fo ymwelwyr yn cyfrannu at raglen yr ysgol:

- *cymerir gofal wrth wahodd ymwelwyr i'r ystafell ddosbarth er mwyn sicrhau nad yw eu barn yn groes i bolisi'r ysgol neu'r AALl ac na fydd y farn a fynegir ganddynt yn tramgwyddo ar unrhyw ddisgybl na theulu.*
- bydd angen cynllunio'n ofalus ar y cyd rhwng yr ymwelwyr a'r athro/athrawes a gorau oll os gellir gofyn i'r disgyblion ystyried beth maent am wybod a phwy fyddai'n ymwelydd da.
- bydd yr athro/athrawes yn bresennol **bob amser** yn ystod yr ymweliad er mwyn sicrhau parhad, gwerthuso effeithiolrwydd yr ymweliad a derbyn cyfrifoldeb dros y plant yn ystod yr ymweliad.
- *Gwneir gwaith dilynol gyda'r dosbarth wedi i'r ymwelydd adael, er mwyn manteisio i'r eithaf ar effaith yr ymweliad.*

Adnoddau
Ein polisi yw defnyddio adnoddau o ansawdd uchel, sy'n gyfredol, yn addas i fechgyn ac i ferched ac oed ac aeddfedrwydd ein disgyblion a bydd yr adnoddau hyn yn ddwyieithog lle bynnag y bo modd.

Rhieni:
Rydym yn sylweddoli bod gan rieni yr hawl i dynnu eu plant o'r rhaglen os ydynt yn dymuno ac y mae'n bolisi i drafod y rhaglen â rhieni sydd ag unrhyw bryderon. Fodd bynnag, rydym yn atgoffa'r rhieni fod llawer o gynnwys y rhaglen ym mlynyddoedd olaf yr ysgol iau yn rhan o'r cwrs gwyddoniaeth ac felly ni ellir tynnu plant o'r dosbarthiadau hyn.

Pan drafodir atgenhedlu yn y dosbarthiadau hŷn, byddwn yn ysgrifennu at rieni'r plant ddechrau'r tymor fel y gallant drafod y mater gyda'u plant ac ateb unrhyw gwestiynau a allai godi.

Monitro a gwerthuso:
Bydd y Cydgysylltydd ABCh yn gyfrifol am fonitro a gwerthuso'r rhaglen addysg rhyw a pherthnasoedd yn yr un modd â phob pwnc arall. Adolygir y polisi gan y staff a'r llywodraethwyr.